Lansiad y Spelling Bee 2015/16

DIWRNOD IEITHOEDD EWROPEAIDD

Dydd Sadwrn 26ain o Fedi 2015



Gwahoddiad i lansiad cystadleuaeth Spelling Bee 2015/16 yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd yn ystod Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd.

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd, hoffai Llwybrau at Ieithoedd Cymru eich gwahodd i lansiad eu Cystadleuaeth Genedlaethol Spelling Bee 2015/16 yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd.

Dyma 7fed blwyddyn y gystadleuaeth sillafu yng Nghymru sy'n parhau i dyfu mewn poblogrwydd. Cynhelir y gystadleuaeth ar gyfer ieithoedd Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Chymraeg ail iaith gydag anogaeth i ddisgyblion blwyddyn 7 fynd ati i ddysgu hyd at 200 o eiriau yn yr ieithoedd hyn.

Cynhelir y lansiad swyddogol am 11yb ar 5ed llawr y llyfrgell. Dewch i gwrdd â thîm Llwybrau at Ieithoedd Cymru a rhai o enillwyr cystadleuaeth y llynedd! Bydd modd cofrestru ar gyfer cystadleuaeth 2015/16 ar y dydd.

Mae'r lansiad yn rhan o raglen ehangach a drefnir gan Europe Direct Caerdydd gyda digwyddiadau ym mhob rhan o'r llyfrgell gan gynnwys; cerddoriaeth, adrodd straeon, gweithgareddau i blant, sesiynau Minecraft, arddangosfeydd a stondinau gan wahanol sefydliadau.

Ymhlith y rhai sy'n mynychu bydd Cymrodoriaeth Caerdydd Nantes, Clwb de Francais, Canolfan Ddiwylliannol Eidalaidd Cymru a Chyngor Ieuenctid Caerdydd sy'n cynllunio ffair i blant i ddathlu 60 mlynedd ers gefeillio Caerdydd â Stuttgart.

Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd ar Sadwrn 26 Medi, rhwng 11.00yb a 4.00yp.

europe direct Cardiff

routes into LANGUAGES Llwybrau at ieithoedd CYMRU

mwynhewch eich Llyfrgell Leol